

Mae'r Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor yn cynnig ysgoloriaeth ymchwil PhD ym maes Dwyieithrwydd. Cyllidir yr ysgoloriaeth hon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor. Teitl y prosiect ymchwil yw *Hyder wrth (a)ddysgu ynganu: datblygu hyfforddiant ynganu ym maes Cymraeg i Oedolion* a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2023.

Trosolwg:

Mae dysgwyr Cymraeg yn allweddol ar gyfer cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau. Ond, mae oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn gallu wynebu'r broblem o hygredd wrth siarad, yn enwedig gydag ynganu. Mae deall anghenion tiwtoriaid a dysgwyr addysgu a dysgu ynganu yn bwysig i fagu hyder dysgwyr ac i hwyluso eu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Prif fwriad y prosiect yw ymchwilio i effaith hyfforddiant seineg ac ynganu i diwtoriaid ac oedolion yng Nghymru sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Yn benodol, bydd y prosiect hwn yn ymchwilio pa fath o hyfforddiant mae tiwtoriaid yn eu hangen i fagu hyder wrth addysgu am ynganu, yn ogystal â pha fath o hyfforddiant seinegol fyddai'n gallu gwella cynhyrchiad dysgwyr. Bydd y prosiect yn ystyried effaith cefndir gwahanol dysgwyr (h.y. beth yw effaith yr iaith gyntaf, neu dafodiaith yr iaith gyntaf) ar ddysgu seiniau penodol a goslefu'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn cyfuno dulliau ansoddol a meintiol i ddarganfod atebion i amcanion y prosiect.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth gan academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n gallu eich cefnogi a'ch arwain trwy eich ymchwil ar ddwyieithrwydd yn yr Adran Ieithyddiaeth, Iaith Saesneg a Dwyieithrwydd.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch cryf, neu radd Meistr briodol. Mae'r brifysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chydarddoldeb ar bob lefel ac yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, waeth beth fo oedran, anabled, rhyw, hunaniaeth rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol yr ymgeiswyr. Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac i gynyddu recriwtio ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, mae ceisiadau gan ymgeiswyr Du Prydeinig, Prydeinig Asiaidd, ethnigrwydd lleiafrifol Prydain a hil gymysg yn cael eu hannog a'u croesawu yn arbennig.

Rydym yn croesawu ceisiadau i astudio'n llawn-amser neu'n rhan amser, ac mae'r ysgoloriaeth ar gael am gyfnod o tair blynedd o astudio llawn-amser am ddoethuriaeth (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny'n rhan-amser) yn dibynnu ar anghenion yr ymgeisydd.

Croesewir ceisiadau erbyn 12:00 GMT ar Dydd Gwener, 18 Awst 2023

Manylion pellach

BETH FYDD YR YSGOLORIAETH YN TALU AMDANO

Mae'r Ysgoloriaeth gyfwerth yn ariannol ag ysgoloriaethau ôl-raddedig Cyngorau Ymchwil y DU (UKRI). Bydd y cynllun yn darparu cyllid ar gyfer talu'r ffioedd dysgu (£4,712 ar gyfer 2023/24) a grant cynnal a chadw y myfyrwyr (£18,622 ar gyfer 2023/24). Bydd disgwyl i'r myfyriwr llwyddiannus hefyd wneud peth gwaith dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau fel un o amodau'r Ysgoloriaeth. Am fanylion llawn am yr ysgoloriaeth dilynwch y cyswllt

<https://colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/astudio-ol-raddedig/ysgoloriaethau-ymchwil/>

CYMHWYSEDD

Yn angenrheidiol:

- Cymwysterau uchaf (e.e. dylai fod gan ymgeiswyr gefndir academaidd rhagorol mewn leithyddiaeth neu faes arall perthnasol i'r prosiect, gyda gradd dosbarth 1^{af} neu 2:1 pendant)
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl
- Diddordeb gwirioneddol mewn materion yn ymwneud ag ynganu a chaffael ail iaith
- Y dyfalbarhad sydd ei angen i gwblhau PhD trwy ymchwil o fewn cyfnod yr ysgoloriaeth
- Y gallu i gyflawni dyletswyddau dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau

Yn ddelfrydol

- Wedi cwblhau neu ar fin cwblhau gradd meistr mewn leithyddiaeth neu faes perthnasol
- Diddordeb mewn materion yn ymwneud â dysgu Cymraeg i oedolion
- Cefndir neu wybodaeth o faes dwyieithrwydd, neu'r gallu i ddysgu am y maes yn gyflym
- Cefndir neu wybodaeth o seineg / ffonoleg, neu'r gallu i ddysgu am ddulliau ymchwil yn gyflym
- Gwybodaeth o raglen Praat ar gyfer dadansoddi lleferydd
- Profiad o gasglu data gan gyfranogwyr dynol
- Profiad dysgu blaenorol

Lle gallaf gael mwy o wybodaeth?

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

Mae'r cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil yn noddi myfyrwyr i astudio tuag at ddoethuriaeth. Nod y cynllun yw hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg a meithrin ymchwilwyr o'r radd flaenaf.

Am fanylion pellach am waith y Coleg, ewch i'w gwefan: <https://colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/astudio-ol-raddedig/ysgoloriaethau-ymchwil/> ”

Am fanylion am yr Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, dilynwch y cyswllt <https://www.bangor.ac.uk/cy/iaith-diwylliant-celfyddydau/aisd/ymchwil>

Am fwy o fanylion am y prosiect, cysylltwch â Dr Sarah Cooper <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/sarah-cooper-016287/cy> (s.cooper@bangor.ac.uk / 01248 388883).

ASESU

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00 GMT a Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023

Gwahoddir ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer am gyfweiliad. Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal ym mis Gorffennaf 2023.

Gall yr ymgeisydd llwyddiannus ddisgwyl clywed erbyn dechrau mis Awst 2023.

SUT I WNEUD CAIS

Ffurflen gais **wedi'i llenwi** am fynediad i astudiaeth ddoethurol ym Mhrifysgol Bangor: wedi'i chyflwyno i

https://www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/research/apply_research.php.en erbyn y dyddiad cau uchod. Ni dderbynnir ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a ddaw i law ar ôl yr amser a nodir.

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. **Llythyr atodol:** Wedi ei gyfeirio at Dr Sarah Cooper. Rhaid i'r llythyr atodol amlinellu eich rhesymau a'ch cymhelliad dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor, ac astudio Dwyieithrwydd; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o astudiaethau doethurol; a'ch diddordebau academiaidd yn gyffredinol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'ch ymchwil arfaethedig. Ni ddylai'r llythyr atodol fod yn fwy na dwy dudalen.

2. **Cymwysterau academiaidd / proffesiynol:** Lle bo'n briodol, dylai hyn hefyd gynnwys prawf o Gymhwysedd Iaith Saesneg (gwelwch y gofynion mynediad sefydliadol).


3. **Geirdaon:** Mae angen dau eirida academiaidd i gefnogi pob cais.

Rhaid i ymgeiswyr fynd at ganolwyr eu hunain a chynnwys ceisiadau gyda'u cais.

4. **Curriculum Vitae:** Ni ddylai fod yn hwy na dwy dudalen.

SUT I WNEUD CAIS: CANLLAWIAU

Yn y system ymgeisio ar-lein, o dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch **'Ymchwil Ôl-raddedig (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)'**.


Home Bwydlen Personol  Rhaglen Gwybodaeth Cysylltwch Addysg Cyflogaeth Iaith Cyllid

Rhaglenni Sydd ar Gael

Dewiswch y math o raglen y mae gennych ddi-ddordeb ynddi

- Gradd Israddedig / Baglor (BSc, BA, LLB)
- Ôl-raddedig / Meistr a Addysgir (MSc, MA, MBA, LLM)
- MRes (MRes)
- Ymchwil Ôl-raddedig (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)**
- Degree Apprenticeship
- Ceisiadau nad ydynt yn graddio / Modiwlau Annibynnol
- Derbyniadau Cyfyngedig Cod pas sydd ei angen
- Dysgu o bell

Yna dewiswch **'Hysbysebodd Prifysgol Bangor ysgoloriaeth ymchwil'**.


Home Bwydlen Personol  Rhaglen Gwybodaeth Cysylltwch Addysg Cyflogaeth Iaith Cyllid

Rhaglenni Sydd ar Gael

Dewiswch y math o raglen y mae gennych ddi-ddordeb ynddi

- Gradd Israddedig / Baglor (BSc, BA, LLB)
- Ôl-raddedig / Meistr a Addysgir (MSc, MA, MBA, LLM)
- MRes (MRes)
- Ymchwil Ôl-raddedig (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)
- Eich prosiect ymchwil eich hun
- Hysbysebodd Prifysgol Bangor ysgoloriaeth ymchwil**
- Degree Apprenticeship
- Ceisiadau nad ydynt yn graddio / Modiwlau Annibynnol
- Derbyniadau Cyfyngedig Cod pas sydd ei angen
- Dysgu o bell

Yna dewiswch Ysgoloriaeth Ymchwil Coleg Cymraeg Cenedlaethol: *Hyder wrth (a)ddysgu ynganu: datblygu hyfforddiant ynganu ym maes Cymraeg i Oedolion,*



gan wneud yn siŵr i ychwanegu [Sarah Cooper] yn y bocs 'Cyswllt Academaidd'. Cliciwch Ychwanegu.

Am gyngor cyffredinol ar sut i wneud cais ac ynghylch cymwysterau, e-bostiwch:
cahb.pg@bangor.ac.uk